

Seintiau Cymru, Sancti Cambrenses

ASTUDIAETHAU AR SEINTIAU CYMRU
STUDIES IN THE SAINTS OF WALES

69 36

O Du natur o'c om byddant o bu natur
 nichys gorsiant heu dal y wae y ger
 goras or ghyddas yna y wa yrbu
Oed yr arallwyd pam waethbwyd y llyfr
 ydym oedd hymthenghymlynedd a deugam
 a ffedwar tant a wyl phylit ap wadoc
 ap jenaf ap jerdweth hias y llyfr ydym
 1717
 1455
 0262

Wrtthun ydym a ysgrifbenwedd hddymna
Oeddi ap sant ap tesic ap tyredic
 ap t'wessa wledic *haec habes in
 v. hyst. f. g. m. s.*
 Duom Vch sy
 Nyr o gaer gawc y mynws oedd i Sam
 Sobael ap jhael hael ap tyredic ap
 t'wessa wledic **T**ynnor ap forbu ap ty
 edic ap t'wessa wledic **T**elard ap aniel
 ap hyswun d'wim ap tyredic ap t'wessa
 wledic **D**uard boellt ap tesic ap tyred
 ic ap t'wessa wledic **D** thegbesse Vch
 Segis woel o bentllym. Sam **P**remullas
 ap t'mugar ap gartfawc ap teresic ap
 t'wessa wledic **F**ynvelyn ap blesous ap
 weiran ap tybiad Vch t'wessa wledic
Finniasu dremu yn llym **D** ferioel ym
 heuon **D** weirion y weirionnes ac

Frontispiece. The opening of Bonedd y Saint in Aberystwyth, National Library of Wales, Llanstephan 28, p. 69, reproduced by kind permission of the National Library of Wales / Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Seintiau Cymru, Sancti Cambrenses

ASTUDIAETHAU AR SEINTIAU CYMRU
STUDIES IN THE SAINTS OF WALES

golygwyd gan / edited by

David N. Parsons

a / and

Paul Russell



ABERYSTWYTH

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD

PRIFYSGOL CYMRU

2022

Ⓜ Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant © 2022.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, mecanyddol, ffotocopiô, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

All rights reserved. No part of this book may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise, without permission from The University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, The National Library of Wales, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.
A Cataloguing in Publication record for this volume is available in the British Library.

ISBN 978-1-907029-32-5

Seiliedig ar brosiectau ymchwil a noddwyd gan / *Based on research projects funded by*



**Arts and
Humanities
Research Council**

Cynllun y clawr / *Cover design:* Martin Crampin

Cysodi / *Typesetting:* David Parsons

Argraffu / *Printing:* Hobbs the Printers, Totton, Hampshire

Contents / Cynnwys

Introduction	ix
Rhagymadrodd	xv
Abbreviations / Byrfoddau	xxi
1. The Vespasian Life of St Teilo and the Evolution of the <i>Vitae Sanctorum Wallensium</i> <i>Ben Guy</i>	I
2. The Legend of Saint Brendan in Cotton Vespasian A.xiv <i>Joshua Byron Smith</i>	31
3. Crime, Law, and the Justice of the Saints in Medieval Welsh Hagiography <i>Andrew Rabin</i>	43
4. Approaching the Genealogies of the Welsh Saints <i>Barry Lewis</i>	65
5. Translating Saints: the Latin and Welsh Versions of the Life of St David <i>Paul Russell</i>	101
6. The Later Lives of St David in NLW MSS Peniarth 27ii, Llanstephan 34 and Peniarth 225 <i>Jenny Day</i>	119
7. A Welsh Hagiographical Export: The 'Irish Recension' of the Life of St David and the Cult of St David in Ireland <i>Sarah Waidler</i>	155
8. A Dove at his Ear: Imaging St David <i>Martin Crampin</i>	187
9. The later Lives of Mary of Egypt in NLW MS Llanstephan 34 and Cardiff, Central Library MS 2.633 <i>Jenny Day</i>	209

10. The Welsh Versions of the Life of Gwenfrewy <i>Jane Cartwright</i>	237
11. ‘Canu’ Beirdd y Tywysogion i’r Saint <i>Ann Parry Owen</i>	269
12. Agweddau ar Naratif a Strwythur y Cerddi Cymraeg i’r Seintiau <i>David Callander</i>	287
13. Gerald of Wales and the Life of St Caradog <i>Francesco Marzella</i>	299
14. St Cadog in Scotland <i>Thomas Clancy</i>	317
15. The Afterlives of St Melangell (alias Monacella) <i>Paul Russell</i>	333
16. The Imagery of Saints in Medieval Wales <i>Martin Crampin</i>	345
Index	381
Contributors / Cyfranwyr	393

Illustrations / Lluniau

Figures / Ffigyrau

5, 1	Stemma representing James’s view of the relationship of the versions of <i>VS Daudi</i>	103
5, 2	Stemma representing Sharpe’s view of the relationship of the versions of <i>VS Daudi</i>	103
5, 3	Stemma showing the relationship between L and <i>WLSD</i>	109
7, 1	The manuscripts of the Irish Recension deriving from the Nero-Digby recension of the Life of David	161
8, 1	Christopher Charles Powell, St David, c. 1950, stained glass, Church of St David, Penmaenmawr	191
8, 2	Salviati & Co., St David Preaching, 1871, glass mosaic, St Davids Cathedral, designed by John Hardman Powell	193

8, 3	Heaton Butler & Bayne, St David, 1930, stained glass, Church of St Padarn, Llanbadarn Fawr	195
8, 4	Mayer & Co., St David at the Synod of Victory, c. 1897, stained glass, Metropolitan Cathedral of St David, Cardiff	200
8, 5	Frederick Mancini, St David, 1959, stone, Church of St David, Llanddewi Brefi	205
10, 1	Stemma showing possible interpretation of the relationship between the Welsh manuscripts and the other versions	241
16, 1	Fragments of stained glass, probably late fifteenth or early six- teenth century, Church of St Mary, Llanfair Dyffryn Clwyd	348
16, 2	St Frideswide and St Catherine, late fifteenth or early sixteenth century, Church of St Tyrnog, Llandyrnog	349
16, 3	St Apollonia, probably first quarter of the sixteenth century, Church of All Saints, Gresford	353
16, 4	St Andrew, mid-fourteenth century, St Davids Cathedral, tomb of Bishop Henry de Gower	355
16, 5	Apostles with lines from the Creed, late fifteenth or early sixteenth century, Church of St Bridget, Dyserth	357
16, 6	Possible scenes from the Life of St Nicholas, fourteenth century, Church of St Michael, Colwinston	361
16, 7	Possibly St Winefride in Majesty, ceiling boss at St Wini- frede's Well, Holywell, probably early sixteenth century	379

Tables / Tablau

1, 1	A comparison of the contents of the Vespasian and LL Lives of St Teilo	12
10, 1	Selected variants in the versions of <i>Buchedd Gwenfrewy</i>	247

Map

11, 1	Eglwysi a enwir gan Wynfardd Brycheiniog yn 'Canu i Ddewi'	285
-------	---	-----

Abbreviations / Byrfoddau

<i>AchS</i>	<i>Achau'r Saint</i> ; printed <i>EWGT</i> 68–71.
<i>BBCS</i>	<i>Bulletin of the Board of Celtic Studies</i> [=BBGC].
<i>BBGC</i>	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> [=BBCS].
<i>BD</i>	<i>Buched Dewi</i> , gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1965).
<i>ByS</i>	<i>Bonedd y Saint</i> ; printed <i>EWGT</i> 51–67, cf. below 66 and n. 4.
<i>CLIGC</i>	<i>Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru</i> [=NLWJ].
<i>CMCS</i>	<i>Cambrian</i> [formerly <i>Cambridge</i>] <i>Medieval Celtic Studies</i> .
<i>CYSDT</i>	<i>Cywyddau Ymryson Syr Dafydd Trefor</i> , gol. R. Ifans (Aberystwyth, 2012).
<i>eLALME</i>	Electronic version of <i>A Linguistic Atlas of Late Mediaeval English</i> , ed. A. McIntosh, M. L. Samuels and M. Benskin (Aberdeen, 1986; rev. edn. 2013) <amc.lel.ed.ac.uk/amc-projects-hub/project/elalme/>.
<i>EWGT</i>	<i>Early Welsh Genealogical Tracts</i> , ed. P. C. Bartrum (Cardiff, 1966).
<i>GBF</i>	<i>Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg</i> , gol. Rh. M. Andrews <i>et al.</i> (Caerdydd, 1996).
<i>GCBM I</i>	<i>Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr; I</i> , gol. N. A. Jones ac A. Parry Owen (Caerdydd, 1991).
<i>GCBM II</i>	<i>Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr; II</i> , gol. N. A. Jones ac A. Parry Owen (Caerdydd, 1995).
<i>GDB</i>	<i>Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg</i> , gol. N. G. Costigan (Bosco) <i>et al.</i> (Caerdydd, 1979).
<i>GDLI</i>	<i>Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn</i> , gol. W. L. Richards (Caerdydd, 1964).
<i>GEO</i>	<i>Gwaith Einion Oeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug</i> , gol. R. Geraint Gruffydd a R. Ifans (Aberystwyth, 1997).
<i>GGMD III</i>	<i>Gwaith Gruffudd ap Maredudd, III, Canu Amrywiol</i> , gol. A. Parry Owen (Aberystwyth, 2007).
<i>GIBH</i>	<i>Gwaith Ieuan Brydydd Hir</i> , gol. M. P. Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000).
<i>GIRh</i>	<i>Gwaith Ieuan ap Rhydderch</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003).
<i>GLGC</i>	<i>Gwaith Lewys Glyn Cothi</i> , gol. D. Johnston (Caerdydd, 1995).

- GLIBH* *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. A. Parry Owen a D. Foster Evans (Aberystwyth, 1996).
- GLIF* *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994).
- GLLIL* *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. E. M. Jones (Caerdydd, 1989).
- GMB* *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J. E. C. Williams *et al.* (Caerdydd, 1994).
- GPC* *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002; ail. arg., 2003–) <geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>.
- GSHLIF* *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999).
- IGE*² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac I. Williams, ail arg. (Caerdydd, 1937).
- LBS* S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints*, 4 vols (London, 1907–13).
- LL* *Liber Landavensis; The Text of the Book of Llan Dâv*, ed. J. Gwenogvryn Evans and J. Rhys (Oxford, 1893).
- LLA* J. Morris Jones and John Rhÿs (eds.), *The Elucidarium from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi* (Oxford, 1894).
- MSPVM* Dominic of Evesham, *Miracula Sancte et Perpetue Virginis Marie*; ed. and trans. I. Mittendorf, 'The Middle Welsh Mary of Egypt and the Latin source of the Miracles of the Virgin Mary', in *The Legend of Mary of Egypt in Medieval Insular Hagiography*, ed. E. Poppe and B. Ross (Dublin, 1996), 226–31.
- NLA* *Nova Legenda Anglie*, ed. C. Horstman, 2 vols (Oxford, 1901).
- NLWJ* *National Library of Wales Journal* [=CLIGC].
- NSB* *Navigatio Sancti Brendani*; see below, 32 n. 4.
- ODNB* *Oxford Dictionary of National Biography*, <www.oxforddnb.com>.
- PL* J.-P. Migne, *Patrologiae Cursus Completus ... series Latina* (Paris, 1844–55, 1862–65).
- STC* A. W. Pollard and G. R. Redrave, *A Short-Title Catalogue of Books Printed in England, Scotland and Ireland 1475–1640*, 2nd edn, rev. by W. A. Jackson *et al.*, 3 vols (London, 1976–91).
- TA* *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones, 2 gyfrol (Caerdydd, 1926).

- VSBG* A. W. Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Cardiff, 1944; new edn, ed. S. Lloyd, 2013 [pagination largely identical, differences are noted]).
- VSD* *Vita S. David*; ed. and trans. R. Sharpe and J. Reuben Davies, 'Rhygyfarch's Life of St David', in *St David of Wales: Cult, Church and Nation*, ed. J. Wyn Evans and J. M. Wooding (Woodbridge, 2007), 107–55.
- VSME* Paul of Naples, *Vita Sanctae Mariae Egyptiaca*; ed. and trans. H. Magennis, *The Old English Life of Saint Mary of Egypt* (Exeter, 2002), 139–209.
- VSW* *Vita Sancte Wenefrede*, ed. and trans. D. Callander, forthcoming at <welshsaints.ac.uk/theedition>; see below, 239 and n. 16.
- WLSD* *The Welsh Life of Saint David*, ed. D. Simon Evans (Cardiff, 1988)

Agweddau ar Naratif a Strwythur y Cerddi Cymraeg i'r Seintiau¹

DAVID CALLANDER

Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ceir chwyldro yn y defnydd o naratif mewn cerddi Cymraeg, hyd y gallwn farnu o'r deunydd ar glawr. Cyfansoddir cerddi yn cynnwys naratifau sy'n hwy na'r naratifau yn y farddoniaeth gynharach.² Mae cerddi sy'n cynnwys elfennau naratif sylweddol hefyd yn llawer mwy niferus na'r llond llaw o gerddi naratif Cymraeg o'r cyfnod cyn 1300. Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg defnyddir y term 'ystorya' am y tro cyntaf i gyfeirio at gerdd Gymraeg.³ Eto mewn cymhariaeth â llenyddiaethau eraill Ewrop yr Oesoedd Canol, nid yw naratifau'r cerddi Cymraeg yn estynedig. Yn wir, yn y cyfnod ceir cerddi i seintiau yn Ffrangeg, Almaeneg, Lladin, Sbaeneg, Saesneg, Eidaleg, Llychlyneg a hyd yn oed Wyddeleg y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn fwy cyfforddus yn eu galw'n gerddi naratif, yn straeon, na'r cerddi Cymraeg.⁴ Nid yw hyn yn

¹ Seilir y bennod hon ar bapur a gyflwynais yng nghynhadledd 'Cwlt y Seintiau yng Nghymru: Ffynonellau a Chyd-destunau' a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin yn 2014. Gwneuthum y rhan fwyaf o'r ymchwil tra fum yn fyfyrwr PhD yng Nghaer-grawnt o dan nawdd Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Hoffwn ddiolch i Paul Russell a Barry Lewis am gynnig sylwadau ar ddrafft o'r bennod hon. Myfi sy'n gyfrifol am bob camgymeriad a erys.

² Am astudiaeth o naratif y farddoniaeth gynharach, gw. D. Callander, *Dissonant Neighbours: Narrative Progress in Early Welsh and English Poetry* (Caerdydd, 2019).

³ Ni cheir y teitl 'ystorya' yn y llawysgrifau am gerddi Beirdd y Tywysogion nac am gerddi eraill sy'n hŷn nag oes y Cywyddwyr. Cyfeiria Madog Dwygraig at un o'i gerddi fel 'ystoria Deicyn' (yn y gerdd honno). Mae hon yn gyfres o englynion dychanol, sy'n eithriadol o gryf ei naratif, gan y bardd hwn a flodeuai yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg: H. M. Edwards, gol., *Gwaith Madog Dwygraig* (Aberystwyth, 2006), cerdd 14. O ran hagiograffeg, 'Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon' yw un o'r teitlau a ddefnyddir yn y llawysgrifau ar gyfer cywydd enwog Tudur Aled (m. tua 1526) i Wenfrewy: I. Williams, gol., *Gwyneddion 3* (Caerdydd, 1931), 119.

⁴ Am Ffrangeg, gw. G. Brunel-Lobrichon, A.-F. Leurquin-Labie a M. Thiry-Statin, 'L'hagiographie de langue française sur le Continent IX^e - XV^e Siècle', yn *Hagiographies*, gol. G. Phillippart, 4 cyf., *Corpus Christianorum* (Turnhout, 1994–2006), II, 291–371. Am Almaeneg, gw. K. Kunze, 'Deutschsprachige Hagiographie von den Anfängen bis 1350', yn *ibid.*, II, 211–38. Am Ladin, gw. e.e. M. Lapidge a R. C. Love, 'The Latin hagiography of England and Wales (600–1550)', yn *ibid.*, III, 203–325 (268–9, 294–9). Am Sbaeneg, gw. Ángeles García de la Borbolla, 'Las fuentes hagiográficas hispanas en lengua vulgar (1230–

ddiffyg yn y cerddi Cymraeg. Dewisasant y beirdd ddilyn llwybrau a strwythurau amgen na chreu naratif estynedig, a gall y rheini fod yn gain a chelfydd hefyd. Eto, mae'r ffaith nad yw'r naratifau yn estynedig at ei gilydd yn golygu nad yw'r agwedd hon ar y farddoniaeth wedi derbyn llawer o sylw.⁵ Mae hyn wedi arwain at rai sylwadau anghyson am naratif barddonol y cyfnod, hyd yn oed yn y gweithiau ysgolheigaidd mwyaf awdurdodol.⁶ Mae'r corpws sylweddol o gerddi Cymraeg i'r seintiau yn cynnig cyfle inni gan fod tuedd cymharol sylweddol at naratif yn y cerddi hyn. Yn y bennod hon, trafodaf nifer o agweddau ar naratif a strwythur y cerddi Cymraeg i'r seintiau o'r tair cerdd hir yn y ddeuddegfed ganrif i gynnrych swmpus y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg. Tynnaf ar drafodaethau a fu eisoes ar naratifau hagiograffaidd eraill o Gymru ac ar strwythur cerddi Cymraeg y cyfnod. Rhydd hyn gyfle i ddisgrifio'r hyn sy'n nodweddu'r cerddi yn ogystal â'r gwahaniaethau amlwg rhwng y tair cerdd gynnar a'r cerddi diweddarach.

Astudiais bob cerdd Gymraeg i'r seintiau o'r cyfnod cyn 1700 a oedd wedi cael ei golygu (tua 5305 o linellau o farddoniaeth fel cyfanswm, sef y rhan fwyaf o lawer o'r cerddi sydd ar glawr). Yn yr atodiad isod, rhestrir y cerddi hyn a'r golygiadau perthnasol yn ôl pum cyfnod, sef Gogynfeirdd; Cyfnod 1 y Cywyddwyr (tua 1320 – tua 1420); Cyfnod 2 y Cywyddwyr (tua 1430 – tua 1485); Cyfnod 3 y Cywyddwyr (tua 1485 – tua 1525); Cyfnod 4 y Cywyddwyr (diweddarach yn yr unfed ganrif ar bymtheg). Mae'r corpws yn cynnwys rhai cerddi megis cywydd Dafydd ap Gwilym i Ddwynwen na cheir fawr ddim naratif ynddynt. Haws oedd cyfiawnhau cynnwys cymaint o gerddi i'r seintiau â phosibl na pheidio â'u cynnwys ar sail gwahaniaethau mewn ffurf neu *genre*. Anodd iawn yw gwahaniaethu rhwng y cerddi gofyn i'r seintiau a'r cerddi mwy cyffredinol a ganwyd iddynt. Yn aml iawn, ceir

1350)', yn *ibid.*, IV, 135–81 (143, 158). Am Hen Saesneg, gw. M. Lapidge, 'The saintly life in Anglo-Saxon England', yn *The Cambridge Companion to Old English Literature*, gol. M. Godden a M. Lapidge, ail arg. (Caer-grawnt, 2013), 251–72. Am Saesneg Canol, gw. C. D'Evelyn a F. A. Foster, 'Saints' legends', yn *A Manual of Writings in Middle English*, gol. J. B. Sievers (New Haven, 1970–2005), II, 410–57. Am Eidaleg, gw. e.e. A. Bayot a P. Groult, gol., *La Légende de Sainte Catherine d'Alexandrie: Poème Italien du XV^e Siècle* (Gembloux, 1943). Am Lychlyneg, gw. J. Louis-Jensen, gol., 'Plácitus Drápa', yn *Plácidus Saga*, gol. J. Tucker (Copenhagen, 1998), 89–123; K. Attwood, 'Christian Poetry', yn *A Companion to Old Norse-Icelandic Literature and Culture*, gol. R. McTurk (Rhydychen, 2005), 43–63; *Kulturhistorisk Leksikon for nordisk middelalder* (Copenhagen, 1956–), VI, coln. 318–21. Am yr Wyddeleg, gw. C. Plummer, gol., *Bethada Náem n'Éirenn / Lives of Irish Saints*, 2 gyf. (Rhydychen, 1922); gw. yn arbennig 'Betha Caoimghin (II)', I, 131–54; II, 127–50.

⁵ Yn ddiweddar, rwyf wedi astudio amrywiaeth yn hyd naratif y cerddi i'r seintiau a rhai elfennau naratif yn y cerddi i Wenfrewy: D. Callander, 'Die diachrone Entwicklung der Erzählung in der kymrischen Heiligendichtung', yn *Narratologie und mittelalterliches Erzählen: Autor, Erzähler, Perspektive, Zeit und Raum*, gol. Eva von Contzen a Florian Kragl (Berlin, 2018), 101–23; D. Callander, 'Y seintiau a thraddodiad llenyddol: achos y Canu i Wenfrewy', *Studia Celtica* 54 (2020), 99–114.

⁶ Gw. e.e. D. Johnston, *Llên yr Uchelwyr* (Caerdydd, 2005), 14, 116, 143, 213–14.

rhywfaint o sôn am hanes y sant yn y cerddi lle mae'r bardd yn gofyn am rywbeth, fel hefyd yn y cerddi sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddisgrifio ffynnon sanctaidd, a cheir rhyw fath o ddeisyfiad neu eiriol yn y rhan fwyaf o ddigon o'r cerddi.

Gan Feirdd y Tywysogion y ceir y cerddi Cymraeg cynharaf i seintiau sydd ar glawr.⁷ Yn ei hastudiaeth o *Ganu i Gadfan*, mae Catherine McKenna wedi dadlau y ceir rhai technegau hagiograffiaidd yn y cerddi hyn y deur o hyd iddynt mewn rhyddiaith, ond noda nad yw'r cerddi yn naratif nac mewn trefn amseryddol.⁸ Ni fynnwn ddadlau na cheir naratif o gwbl yn y cerddi gan Feirdd y Tywysogion. Ceir rhai enghreifftiau o naratifau byr, ac mae'r rheini'n gymharol gryf yn *Canu i Ddewi* gan Gwynfardd Brycheiniog (a gyfansoddwyd tua 1175–6 o bosibl),⁹ fel y gwelir yn y llinellau canlynol:

- | | |
|---|---|
| <p>— 230</p> <p>↓</p> <p>— 235</p> <p>↓</p> | <p>O anuot Boia bu diamheu
Y doeth ef y Uyni6, sy6 synhwyreu.
Keisswyd kythreulaeth g6aeth g6weithredu,
Ny allwyd a unnywyd, methlwyd wynteu;
Ellygwys g6raget eu g6recysseu,
Rei g6einyon, noethon, aethan uateu.
Y g6erth eu g6rthwarae, gwyrth a oreu;
Kertassant gan wynt ar hynt agheu.</p> |
| <p>— 230</p> <p>↓</p> <p>— 235</p> <p>↓</p> | <p>Yn erbyn ewyllys Boia yn ddiamau
Y daeth ef i Fynyw, [yr un] doeth ei synhwyrau.
Ceisiwyd cyflawni diefligrwydd, gweithredoedd gwaeth,
Ni allwyd gwneud a fynnwyd, dryswyd hwythau;
Gollyngodd gwagedd eu gwregysau,
Rhai gweinion, noethion, aethant i ddifancoll,
Yn dâl am eu gwawd, gwnaeth wyrth:
Aethant gyda'r gwynt ar daith angau.¹⁰</p> |

Cawn naratif yma trwy ddwy gyfres naratif baralel o linell 230 i 233 (Dewi yn dod i Fynyw, ceisir cyflawni diefligrwydd, drysir hwy (sef y gwagedd yma neu Boia a'i wraig yn fwy cyffredinol)), ac o linell 234 i 237 (gwagedd yn gollwng eu gwregysau, Dewi'n cyflawni gwyrth, gwagedd yn marw). Mae'r gyfres gyntaf yn crynhoi'r digwyddiadau mewn tri cham. Mae'r ail gyfres yn adrodd yn fanylach y cais i demtio Dewi a'i ddilynwyr,

⁷ Gw. Ann Parry Owen, "'Canu' Beirdd y Tywysogion i'r saint', Pennod 11 uchod.

⁸ C. McKenna, 'The hagiographic poetics of *Canu Cadfan*', yn *A Celtic Florilegium: Studies in Memory of Brendan O Hehir*, gol. K. A. Klar, E. E. Sweetser a C. Thomas (Andover, 1996), 121–37 (125–6).

⁹ Ar y dyddiad, gw. Ann Parry Owen, 'Canu i Ddewi', Rhagymadrodd, <seintiaucymru.ac.uk/ygolygiad/>.

¹⁰ Testun ac aralleiriad o *GLIF*, cerdd 26.

a'r wyrth a wnaeth, eto mewn tri cham.¹¹ Mae'n amlwg nad yw'r naratif yn estynedig o gwbl, hyd yn oed yn y gerdd hon, sy'n gryfach ei naratif o lawer na *Canu i Gadfan* a *Canu Tysilio*.¹² Dim ond rhai darnau o'r testun hir hwn sy'n cynnwys cyfresi naratif. Ni cheir 'yno' nac 'yna' yn y gerdd fel adferfau amseryddol ac mae'r adferfau hynny, a fyddai'n egluro trefn amserol naratifau, yn anaml yn yr Hengerdd ac yng ngwaith Beirdd y Tywysogion. Tra phrin yw naratif hagiograffeg Beirdd y Tywysogion, felly, fel yng ngweddill eu canu.¹³

Arall yw hanes naratif yng ngwaith y cywyddwyr a'u cerddi i'r seintiau yn enwedig. Disgrifiad yma rai o'r nodweddion naratif a arferir mewn cerddi i'r seintiau o oes Dafydd ap Gwilym ymlaen. Un o nodweddion mwyaf cyffredin arddull naratif y cerddi hyn yw cynnig crynodeb byr o'r digwyddiadau ac wedyn adrodd yr hyn a ddigwyddodd yn fanylach. Ceir enghraifft yng nghywydd Hywel Daf i Gynog, Merthyr Cynog.¹⁴ Dyma'r crynodeb yn gyntaf:

16 Pan ddoethost, pen i ddoethion,
Eirian sant, i'r ynys hon,
Cawr dros blwyf, Caerwedros blant,
A leddaist rhag aflwyddiant.

Mae stori fanylach yn dilyn yn syth:

20 Blaidd neu ryw ddiawlaidd elyn,
Bwyta 'dd oedd o bob tŷ ddyn.
Pan guddiaist, penaig addwyn,
Rhagddo fab y wraig weddw fwyn,
Golwyth a roist o'r gelain
24 Yn lle'r mab, o ddyn llerw main.
Y cawr a wybu'r cerrynt
O ddamwain y gelain gynt;

Felly mae'r stori'n parhau am ryw ddeuddeg llinell. Mae'n bwysig sylweddoli bod y nodwedd ailadroddol hon yn rhan hanfodol o arddull naratif y cerddi hyn. Fel arall, gellid meddwl bod Cynog yn lladd mwy nag

¹¹ Os gwelir 'aethan uateu' yn gyfeiriad at ymdrochi, gall fod yn baralel â'r disgrifiad o'r gwragedd yn gollwng eu gwregysau. Os dilynir dehongliad Cyfres Beirdd y Tywysogion, dyma ddisgrifiad sy'n neidio ymlaen ychydig i sôn am eu marwolaeth.

¹² Ann Parry Owen, 'Canu i Gadfan' a 'Canu Tysilio', <seintiaucymru.ac.uk/ygolygiad/>.

¹³ Cymh. Callander, *Dissonant Neighbours*, 187.

¹⁴ Cymh. e.e. Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, *Gwedd i ar Gynhafal Sant rhag gwayw mewn clun* 23–38; Gwilym Gwyn, *Eilian* 9–34; Lewys Morgannwg, *Moliant Illtud Sant* 47–54; Llywelyn ap Madog, *Mordeyrn* 13–28; Siôn ap Hywel, *Awdl i Wenfrewy* 17–29; Tomas Celli, *Cywydd i Ugain Mil Saint Enlli* 39–60 (M. Ap Huw, 'A critical examination of Welsh poetry relating to the native saints of north Wales' (traethawd DPhil anghyhoeddedig, Rhydychen, 2001), cerdd 52).

un cawr a bod y naratif byr a'r naratif hwy yn hollol ddigysylltiad. Mae'r crynodeb, sy'n dod o flaen y brif stori, yn rhoi manylion moel: ni wyddom ddim am y cawr na sut y cafodd ei ladd gan Cynog. Dysgwn hyn pan gawn y naratif am yr ail dro. Mae'r cerddi i'r seintiau yn debyg i farddoniaeth naratif gynnar Gymraeg yn gyffredinol yn hyn o beth. Clywn 'Y bore Duw Sadwrn cad fawr a fu' ac wedyn cael naratif mwy cyflawn. Yn yr un modd y cawn 'Ceisiais yn hyfedr fedru / ar wely'r ferch, alar fu' cyn cael adroddiant llawnach o anturiaethau Dafydd.¹⁵

Rhywbeth arall sy'n nodweddu llawer o gerddi naratif Cymraeg o'r Oesoedd Canol yw defnydd helaeth o ddeialog. Mae deialog yn hollol angenrheidiol i yrru'r naratif yn ei flaen mewn cerddi megis *Gwaith Argoed Llwyfain ac Armes Dydd Brawd*, fel yng ngherddi naratif Dafydd ap Gwilym.¹⁶ O ystyried hyn, mae'n drawiadol nad oes un gerdd gaeth i sant ag elfen o ymddiddan ynddi.¹⁷ Ceir deialog yn y bucheddau rhyddiaith megis *Buchedd Dewi*, felly nid eu dylanwad hwy sy'n esbonio'r absenoldeb.¹⁸ Esboniad mwy tebygol am ddiffyg deialog yw bod llawer o'r cerddi i'r seintiau yn ymdebygu i'r canu mawl seciwlar. Model gorsymyl fyddai portreadu'r perthynas rhwng y cerddi i'r seintiau a'r canu mawl seciwlar yn stryd unffordd, wrth gwrs.¹⁹ Eto mae'r ffaith na cheir llawer o ymddiddan yn y canu mawl yn gyffredinol yn gyd-destun pwysig ar gyfer diffyg deialog y cerddi hagiograffaidd.²⁰

Mae rhai o nodweddion strwythurol eraill y cerddi yn debyg i'r canu mawl seciwlar. Mae dros 74% o'r cerddi yn gorffen â rhyw fath o ddeisyfiad neu eiriol, yn gofyn am rywbeth fel iachawdwriaeth neu iechyd corfforol gan y sant neu Dduw, neu'n ein hannog ni'r gynulleidfa i foli

¹⁵ Gw. I. Williams, *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960), cerdd 6; *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. D. Johnston *et al.*, <dafyddapgwilym.net>, gwelwyd 26 Ebrill 2021, cerdd 73. Cymh. Callander, *Dissonant Neighbours*, 37–9.

¹⁶ M. Haycock, gol., *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar* (Llandybïe, 1994), cerdd 20.

¹⁷ Mewn llawysgrif o'r unfed ganrif ar bymtheg ceir y gerdd rydd *Ymddiddan y Creiriwr a Mair Fadlen Bryn Buga*, ond nid oes yn y gerdd (G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (London, 1912), 318–19). Mae'r gerdd rydd fer *Seintiau Enlli* yn llawn ddeialog hefyd, ond nid yw hyn yn ychwanegu llawer at naratif y gerdd (Hartwell Jones, *Celtic Britain*, 355–6). Hollol wahanol yw ffurf *Carol Buchedd Gwenfrewy* Gwilym Pue o'r ail ganrif ar bymtheg, sy'n cynnwys ychydig o ymddiddan yn llau. 67–89 (Ap Huw, 'Critical examination', cerdd 35).

¹⁸ D. Simon Evans, gol., *Buchedd Dewi* (Caerdydd, 1959).

¹⁹ Cymh. B. Lewis, 'Genre a genres ym marddoniaeth grefyddol y cyneirdd a'r gogynfeirdd' (traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru (Aberystwyth), 2003), 143–55.

²⁰ Diddorol nodi bod y canu gofyn seciwlar o'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn cynnwys llawer o ymddiddan, fel y sylwodd B. O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c. 1350 – c. 1630* (Caerdydd, 1998), 85. Mae'r cerddi i'r seintiau yn fwy tebygol i'r canu mawl cyffredinol yn hyn o beth.

gwrthrych y gerdd.²¹ Mae hyn yn debyg i'r canu mawl, ond mae'n rhaid bod rôl y sant fel cynorthwywr dyn yn bwysig yma hefyd. Mae diwedd y cerddi bron bob tro yn edrych ymlaen at yr hyn a fydd yn digwydd neu'r hyn y dymuna'r bardd iddo ddigwydd.²² Mae'r rhan fwyaf o'r naratif yn y cerddi hyn yn y gorffennol, ond ceir naratifau eraill, fel mewn sawl cerdd gynnar Gymraeg, a osodir yn y dyfodol ac a ddisgrifia'r hyn a fydd yn digwydd.²³

Gwerthfawr yw cymharu'r cerddi i'r seintiau â'r bucheddau rhyddiaith o ran eu naratif. Mae Elissa Henken wedi creu rhestr i gynrychioli strwythur arferol bucheddau seintiau Cymru, gan symud o ymddwyn a genedigaeth y seintiau i'w marwolaeth:²⁴

1. conception and birth
2. childhood (education)
3. performing a miracle which indicates spiritual maturity
4. going out into the world – founding churches, making pilgrimages, retiring to the wilderness, journeying as a missionary
5. fighting against secular powers (kings or beasts)
6. ruling a territory
7. death

Nid yw'r rhestr hon yn deillio o astudiaeth o'r bucheddau o Gymru yn unig. Gwelir dylanwad naratoleg strwythuraethol. Medd Henken, 'the biographical pattern of the Welsh male saint is generally that of the hero as distinguished in international tradition.'²⁵ Mae'r fath astudiaethau strwythuraethol yn dra dadleuol, yn enwedig pan drafodir testunau llenyddol. Nid yw'r ffaith bod patrwm yn gyffredin mewn nifer o destunau yn golygu bod rhaid inni ei weld ym mhob un, yn enwedig wrth groesi ffiniau iaith a diwylliant. Fel y mae Henken yn egluro, felly, ni allwn ddisgwyl gweld y patrwm hwn bob tro:

²¹ Cyfrifwyd pob cerdd yn y corpws heblaw am rai anghyflawn ac englynion unigol neu grwpiau o ddau englyn a geir o'r 16eg ganrif ymlaen (gw. atodiad).

²² Os na cheir eiriol amlwg ar ddiwedd y cerddi, weithiau cyfeirir at y dyfodol mewn llinellau y gellid eu trin fel eiriolau ymhlyg; gw. Huw Cae Llwyd, *Y Seintiau*, 69–70; Lewys Glyn Cothi, *I Simon a Siwd*, 51–6; cymh. Lewis, 'Genre a Genres', 168.

²³ Gw. e.e. Lewys Glyn Cothi, *I Simon a Siwd*, 51–6; Gruffudd Nannau, *Cywydd i Fwrog Sant dros Ithel a Rys*, 43–56; Ieuan Brydydd Hir, *Ffynnon Gwenfrewi*, 45–52. Mae sôn am ddigwyddiadau'r dyfodol ar ddiwedd cywydd hefyd yn nodweddiadol o ddiwedd cywyddau gofyn. Dyma strwythur a welir yng nghywydd Gruffudd Nannau i Fwrog. Mae naratifau yn y dyfodol, a rhai sy'n gwneud defnydd o orchmynion neu ddibynolion gorchmynnol yn enwedig, yn gymharol gyffredin yn y cerddi naratif cynnar: gw. *Gwaith Argoed Llwyfain* 15–19; *Armes Dydd Brawd* 81–92, 155–60.

²⁴ Henken, *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives* (Woodbridge, 1991), 2.

²⁵ *Ibid.* Noder mai 'male saint' sydd dan sylw Henken yma. Am strwythurau gwahanol bucheddau santesau yng Nghymru, gw. J. Cartwright, *Y Forwyn Fair; Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), 94–5; cymh. J. Cartwright, *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales* (Caerdydd, 2008).

The pattern is not necessarily present in complete form in any one text or even in the combined texts for a particular saint. Nor would one expect otherwise, given the fragmentary nature of the texts which have survived from the middle ages. Moreover, and more importantly, there is no need for a narrator to tell all at once everything known about a saint or about any other hero. The episodes in a hero's life may all be told separately, coming together only in a people's collectively-held knowledge of the tradition. Thus for many of the saints, the larger pattern may be discernible only when the isolated episodes are examined in relation to the episodes in other saints' lives.²⁶

Mae Henken yn datgan yn glir, felly, na raid inni geisio dod o hyd i'r holl fanylion hyn ym mhob buchedd sydd ar glawr. Ac eto, y mae awgrym bod y rhestr uchod rywsut yn cynrychioli norm a fyddai i'w weld yn y traddodiadau am bob sant yng Nghymru, petai pob un ohonynt ar glawr yn llawn. Ni allwn fod mor sicr am hyn, o ystyried amrywiaeth y corpws sydd gennym ac o ystyried nad yw'r hyn sydd ar glawr ond yn gyfran fechan iawn o'r traddodiadau am seintiau a grëwyd yng Nghymru'r Oesoedd Canol ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Os yw perthynas y rhestr hon â'r bucheddau rhyddiaith ychydig yn ansicr, llai sicr fyth yw'r cysylltiad â'r cerddi hagiograffaid, sydd fel arfer yn cynnwys naratifau llawer llai estynedig. Defnyddiaf yr addasiad canlynol o fodel Henken wrth drafod y cerddi:

1. conception and birth
2. childhood (education)
3. performing miracle(s)
4. going out into the world - founding churches, making pilgrimages, retiring to the wilderness, journeying as a missionary
5. fighting against secular powers (kings or beasts)
6. death

Newidiais bwynt 3 i gael gwared ar y cyfeiriad at aeddfedrydd ysbrydol. Anaml y gwneir yn eglur yn y farddoniaeth fod pwysigrwydd unigryw yn perthyn i'r wyrth gyntaf a ddisgrifir, ar y sail ei bod yn amlygu aeddfedrydd ysbrydol y sant am y tro cyntaf; yn hytrach, tuedda'r gwyrthiau i ddod yn ddiwahaniaeth ac nid yw eu trefn yn dwyn arwyddocâd amlwg. Ychydig iawn o enghreifftiau o 'ruling a territory' sydd yn y cerddi, ac mae'r seintiau yn aml iawn yn rhoi'r gorau i reoli talaith, neu'n gwrthod coron, yn groes i fodel Henken, felly dileais y cyfeiriad at hwnnw.

Er gwaethaf yr anawsterau, mae cymharu'r rhestr hon â naratif y cerddi yn gallu bod yn ddadlennol. Un o'r pethau pwysicaf y mae'n ei ddangos inni yw nad oes cysylltiad amlwg rhwng cryfder naratif a'r nifer o elfennau

²⁶ Henken, *Welsh Saints*, 2.

strwythurol Henken a gynhwysir. Mae cerddi hir Beirdd y Tywysogion, er mor wan eu naratif, ar gyfartaledd yn cynnwys rhagor o'r elfennau hyn na cherddi unrhyw gyfnod o'r cywydd, er bod mwy o naratif estynedig i'w gael ym mhob un o'r cyfnodau hynny. Mae'r cerddi gan Feirdd y Tywysogion a astudiwyd yn cynnwys 3.75 o elfennau strwythurol y model addasedig uchod ar gyfartaledd. Yn achos y Cywyddwyr, cawn y canlyniadau hyn: cyfnod 1: 1.67; cyfnod 2: 2.23; cyfnod 3: 2.4; cyfnod 4: 3.5.²⁷ Diddorol nodi nad yw hyn yn cadw at batrwm y datblygiadau mewn naratif yn y cyfnodau diweddarach a drafordir isod. Tybiaf mai hyd eithriadol y tair cerdd hir Ogynfarddol i seintiau sydd yn gyfrifol am y ffaith eu bod yn cyffwrdd â mwy o wahanol ddigwyddiadau ym mywyd y sant ar gyfartaledd. Mae'r canlyniadau hyn yn cadarnhau yr hyn a ddywed Catherine McKenna yn ei hymdriniaeth â *Canu i Gadfan*, sef bod y gerdd yn gweithio fel hagiograffeg er na cheir nemor ddim naratif ynddi.²⁸ Y gwahaniaeth pwysig rhwng cerddi Beirdd y Tywysogion a cherddi cryf eu naratif ar ôl 1300 (megis *Buchedd Dewi* Ieuan ap Rhydderch) yw bod y cerddi diweddarach yn fwy tebygol o gynnwys elfennau strwythurol Henken mewn trefn, a hefyd fod yr enghreifftiau o'r elfennau hyn yn tueddu i fod yn fwy eglur a llai amwys ar ôl 1300.

Y mae'n hollol amlwg bod hyd naratifau'r cerddi i'r seintiau yn amrywio dros y canrifoedd, ac yn cryfhau wrth symud o gyfnod Beirdd y Tywysogion i gyfnod Beirdd yr Uchelwyr. Mewn astudiaeth flaenorol, disgrifiais fel y mae'r naratifau yn dod yn fwy estynedig yn y bedwaredd ganrif ar ddeg (cyfnod 1), ac yn cryfhau eto o'r 1430au ymlaen (cyfnod 2), cyn lleihau tua diwedd y ganrif honno a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg (cyfnod 3), a chryfhau unwaith eto yn ddiweddarach yn yr unfed ganrif ar bymtheg (cyfnod 4).²⁹ Cyfetyb hyn i newidiadau ehangach a welir yn hanes y cywydd ac a ddisgrifiwyd gan Eurys Rolant, Dafydd Johnston, a Cynfael Lake.³⁰ Amlinelliad bras iawn o ddatblygiad naratif yn y cerddi yw hwn. Nid yw'n dangos yr amrywiaeth sydd ym mhob cyfnod. Mae naratifau yn tueddu i fod yn fwy estynedig mewn rhai cyfnodau nag eraill, ond mae cerddi heb nemor ddim naratif i'w cael ym mhob cyfnod. Ychydig iawn o gerddi Cymraeg i'r seintiau a geir cyn y bymthegfed ganrif ac ychydig iawn o gerddi caeth iddynt wedi'r diwygiad protestannaidd, felly dim ond yn y bymthegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg y ceir digon o dystiolaeth i gynnig sail gadarn i'r dehongliad.

²⁷ O'r cerddi a restrir yn yr atodiad isod, ni chynhwyswyd ond testunau sy'n canolbwyntio ar un sant yn unig yn y rhan hon o'r astudiaeth.

²⁸ McKenna, 'Hagiographic pattern', 125–6, 134.

²⁹ Gw. trafodaeth yn Callander, 'Diachrone Entwicklung', 118–20.

³⁰ Eurys Rolant, 'Arddull y cywydd', *Ysgrifau Beirniadol* 2 (1966), 36–57; Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, 99; Cynfael Lake, 'Gwe Gaeth y Gymraeg Wen', *Llên Cymru* 27 (2004), 48–70 (54).

Yn ail gyfnod y cywyddwyr, cyfnod o tua 1430 i'r 1480au a welai ddefnydd hyblyg o'r gwahanol fathau o gynghanedd, y ceir y rhan fwyaf o'r cerddi cryf eu naratif yn y corpws. Y gerdd gryfaf ei naratif yn y cyfnod hwn, ac yn wir ymhlith yr holl gerddi caeth i seintiau, yw *Buchedd Dewi* gan Ieuan ap Rhydderch, sydd â'i chyfres naratif hwyaf yn cynnwys 27 o ddigwyddiadau a chyflyrau mewn trefn gronolegol. Mae'r gerdd 130 o linellau o hyd yn adrodd bywyd Dewi Sant bron fel petai'n fuchedd ryddiaith. Yn wir, dim ond 6 llinell gyntaf y gerdd a'r 26 llinell olaf nad ydynt yn uniongyrchol yn adrodd buchedd y sant. Cerdd naratif yw hon, heb os nac oni bai, un sy'n arbennig o gryf ei naratif hyd yn oed o'i chymharu â cherddi eraill y cyfnod hwn. Mae sawl esboniad posibl am hyn, gan gynnwys statws amatur Ieuan ap Rhydderch fel bardd, cyfnod ei flodeuo a'r argaeledd o fucheddau rhyddiaith. Anodd yw gwahaniaethu rhwng beirdd amatur a beirdd proffesiynol yn y cyfnod hwn, ond ymddengys nad oedd cerddi â naratif mor estynedig â hyn yn rhan o'r traddodiad barddol dysgedig.³¹ Gall fod statws amatur Ieuan ap Rhydderch, a'r ffaith ei fod efallai ychydig y tu allan i'r traddodiad hwn, wedi'i alluogi i greu'r fath gerdd, yn arbennig o ystyried mai yn y canu rhydd y ceir y naratif cryfaf. Efallai ei fod o bwys y blodeuai (i raddau o leiaf) rhwng prif ffrydiau cyfnodau 1 a 2, amser pan oedd yr amrywiaeth fawr a geid mewn barddoniaeth yn esgor ar gerddi a oedd ychydig yn wahanol i'r traddodiadau a'u rhagflaenodd.³²

Nid yw'n hollol glir sut mae bodolaeth *vita* ryddiaith ysgrifenedig yn dylanwadu ar gryfder naratif y cerddi, yn arbennig gan na allwn fod yn sicr nad oedd bucheddau gwahanol seintiau yn bod (ar lafar neu ar lyfr) nad ydynt ar glawr heddiw.³³ Gall fod buchedd sefydlog wedi cynnig model i feirdd ei ddilyn ac felly wedi cryfhau naratif eu cerddi, ond ar y llaw arall gall fod buchedd ysgrifenedig hysbys wedi gadael i feirdd gyfeirio'n gyflym at ddigwyddiadau y gwyddai'r gynulleidfa ddysgedig amdanynt yn barod, heb ymhelaethu. Ceir enghreifftiau o gerddi â naratif cryf iawn sydd heb fuchedd ryddiaith gyfatebol y gwyddys amdani, megis cywydd Dafydd Llwyd Mathafarn i Tydecho, ond gall fod *Buchedd Tydecho* wedi bodoli ar un adeg. Nid oes modd bod yn sicr, felly, am effaith bodolaeth buchedd rhyddiaith ar y cerddi ond dylid nodi bod y cerddi cryfaf eu naratif a astudiwyd, sef *Buchedd Dewi* Ieuan ap Rhydderch a'r carol diweddarach o

³¹ Diddorol nodi bod beirdd sy'n creu cerddi hir naratif ar y mesurau rhyddion yn tueddu i bwysleisio pa mor wahanol yw'r rhain i gerddi y traddodiad barddol. Gw. e.e. Siôn Tudur, *Hanes y Trwstan*, 523–6 (E. P. Roberts, gol., *Gwaith Siôn Tudur*, 2 gyf. (Caerdydd, 1980), cerdd 202) a Gwilym Pue, *Carol Buchedd Gwenfrewy*, 201–4. Noder hefyd y ceir naratif cymharol cryf mewn barddoniaeth a ystyrir yn ddychan israddol, ac yn arbennig gan Fadog Dwygraig yn ei gyfres eithriadol o englynion a enwir yn *Ystoria Deicyn*, fel y nodwyd uchod: Edwards, gol., *Gwaith Madog Dwygraig*, cerdd 13.

³² Gw. D. Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, 237.

³³ Cymh. Barry J. Lewis, *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* (Dulyn, 2015), 132, 139.

lawer gan Gwilym Pue i Gwenfrewy, wedi'u seilio yn uniongyrchol ar fucheddau rhyddiaith sydd ar glawr.³⁴

Yn fyr, y mae'r cerddi Cymraeg i'r seintiau, fel llenyddiaeth ac fel ffynonellau hanesyddol a diwylliannol, o bwysigrwydd enfawr, ond mae'n rhaid wrth y gofal mwyaf wrth ddadansoddi eu naratif. Mae gan y cerddi caeth eu harddull naratif eu hunain, ac mae deall ei nodweddion yn gallu bod o wir ddefnydd wrth eu dehongli.³⁵

*Atodiad: Y Corpws*³⁶

Dyma'r cerddi a'r golygiadau perthnasol y seilir yr astudiaeth hon arnynt, wedi eu rhannau yn bum cyfnod. Astudiais hefyd 16 cerdd ddiennw heb eu dyddio, wyth cerdd o'r cyfnod wedi diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, ac englynion unigol diweddar, ond nis cynhwyswyd yn yr ystadegau.

Gogynfeirdd

Cynddelw Brydydd Mawr, 'Canu Tysilio' (*GCBM* I, cerdd 3).

Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, 'Gofyn Nawdd Cedig Sant' (N. G. Costigan, gol., *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur* (Aberystwyth, 1995), cerdd 1).

Gwynfardd Brycheiniog, 'Canu i Ddewi' (*GLIF*, cerdd 26).

Llywelyn Fardd I, 'Canu i Gadfan' (*GLIF*, cerdd 1).

Madog ap Gwallter, 'I Fihangel' (*GBF*, cerdd 34).

Cyfnod 1 (tua 1320 – tua 1420)

Dafydd ap Gwilym, 'Galw ar Ddwynwen' (Johnston, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, cerdd 48).

Iolo Goch, 'I Ddewi Sant' (D. Johnston, gol., *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988), cerdd 29).

Rhys Goch Eryri, 'I Feuno' (D. Foster Evans, gol., *Gwaith Rhys Goch Eryri* (Aberystwyth, 2007), cerdd 14).

Cyfnod 2 (tua 1430 – tua 1485)

Dafydd Llwyd o Fathafarn, 'Awdl i Ddewi' (W. Leslie Richards, gol., *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd, 1964), cerdd 3).

Dafydd Llwyd o Fathafarn, 'Cywydd i Dydecho Sant' (Richards, *Gwaith Dafydd Llwydd*, cerdd 52).

Dafydd Nanmor, 'Gweddi ar Bedrog Sant wedi storm tywod' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 17).

Gruffudd Nannau, 'Cywydd i Fwrog Sant' (Ap Huw, 'Critical examination', cerdd 21).

³⁴ Gw. Ap Huw, 'Critical examination', I, cxi. Dichon ei fod yn arwyddocaol mai yn *Canu i Ddewi*, yr unig sant y gwyddys y ceid buchedd ryddiaith iddo, y mae'r naratif cryfaf ymysg cerddi Beirdd y Tywysogion i'r seintiau; cymh. Ap Huw, 'Critical examination', I, xxviii–xxix.

³⁵ Cymh. Callander, 'Seintiau a thraddodiad llenyddol'.

³⁶ Argraffwyd manylion y corpws hwn yn Callander, 'Diachrone Entwicklung' hefyd.

- Hywel Dafï, 'Seintiau Enlli' (Ap Huw, 'Critical examination', cerdd 13).
- Hywel Rheinallt, 'Cywydd Cawrda Sant' (Ap Huw, 'Critical examination', cerdd 10).
- Hywel Rheinallt, 'Cywydd Einion' (Ap Huw, 'Critical examination', cerdd 11).
- Huw Cae Llwyd, 'I Iesu a'r Seintiau' (Leslie Harries, gol., *Gwaith Huw Cae Llwyd* (Caerdydd, 1953), cerdd 43).
- Huw Cae Llwyd, 'Y Seintiau' (Harries, *Gwaith Huw Cae Llwyd*, cerdd 45).
- Hywel Dafï, 'Cynog' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 14).
- Hywel Rheinallt, 'Dwynwen' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 3).
- Ieuan ap Rhydderch, 'Buchedd Dewi Sant' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 18).
- Ieuan Brydydd Hir, 'Ffynnon Gwenfrewi' (M. Paul Bryant-Quinn, gol., *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* (Aberystwyth, 2000), cerdd 9).
- Ieuan Llwyd Brydydd, 'Gweddi ar i Ddaged Sant adfer golwg y bardd' (M. Paul Bryant-Quinn, gol., *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan* (Aberystwyth, 2003), cerdd 15).
- Lewys Glyn Cothi, 'Awdl-Gywydd i Ddewi Sant' (D. Johnston, gol., *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995), cerdd 8).
- Lewys Glyn Cothi, 'Gweddi ar Ddewi Sant amddiffyn Elfael' (Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, cerdd 142).
- Lewys Glyn Cothi, 'I Ieuan Fedyddiwr' (Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, cerdd 3).
- Lewys Glyn Cothi, 'I Sain Lug' (Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, cerdd 4).
- Lewys Glyn Cothi, 'I Sain Niclas' (Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, cerdd 6).
- Lewys Glyn Cothi, 'I Saint Cymru' (Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, cerdd 7).
- Lewys Glyn Cothi, 'I Lawddog Sant' (Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, cerdd 9).
- Lewys Glyn Cothi, 'I Simon a Siwd' (Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, cerdd 5).
- Cyfnod 3** (tua 1485 – tua 1525)
- Dafydd ap Llywelyn ap Madog, 'Ffynnon Dyfnog' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 7).
- Dafydd ap Llywelyn ap Madog, 'Mordeyrn' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 6).
- Dafydd Epynt, 'Cynog' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 15).
- Dafydd Epynt, 'Gweddi ar Sant Cathen Llangathen iachau'r bardd o'i gryd' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 21).
- Syr Dafydd Trefor, 'I Ddeiniol Bangor a'r Esgob Thomas Skeffington' (Rhiannon Ifans, gol., *Gwaith Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth, 2005), cerdd 14).
- Syr Dafydd Trefor, 'I Ddwynwen' (Ifans, *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, cerdd 13).

- Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, 'Gweddi ar Gynhafal Sant' (Ap Huw, 'Critical examination', cerdd 20).
- Gwilym Gwyn, 'Elian' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 2).
- Ieuan ap Llywelyn Fychan, 'Gweddio ar y Saint' (M. Paul Bryant-Quinn, gol., *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan*, cerdd 6).
- Iorwerth Fynglwyd, 'I San Ffraid' (Howel Ll. Jones ac Eurys I. Rowlands, gol., *Gwaith Iorwerth Fynglwyd* (Caerdydd, 1975), cerdd 43).
- Lewys Daron, 'I Bedr yn Rhosyr' (C. Lake, gol., *Gwaith Lewys Daron* (Caerdydd, 1994), cerdd 28).
- Rhisiart ap Rhys, 'Catwg' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 24).
- Rhisiart ap Rhys, 'Catwg (2)' (Eurys I. Rowlands, gol., *Gwaith Rhys Brydydd* (Caerdydd, 1976), cerdd 7).
- Rhisiart ap Rhys, 'I Sant Curig ac I Seintiau Eraill' (Rowlands, *Gwaith Rhys Brydydd*, cerdd 8).
- Rhisiart ap Rhys, 'I Ddewi a Syr Rhys ap Tomas' (Rowlands, *Gwaith Rhys Brydydd*, cerdd 9).
- Rhisiart ap Thomas Du, 'Tyfodwg' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 22).
- Siôn ap Hywel, 'Awdl i Wenfrewi' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 18).
- Siôn ap Hywel, 'Awdl i Gatrin' (Cynfael Lake, gol., *Gwaith Siôn ap Hywel* (Aberystwyth, 1999), cerdd 19).
- Siôn ap Hywel, 'Tyrnog' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 8).
- Siôn Ceri, 'Llwchaearn' (Cynfael Lake, gol., *Gwaith Siôn Ceri* (Aberystwyth, 1996), cerdd 55).
- Tomas Derllys, 'Marged Llanfaches' (Lewis, *Medieval Welsh Poems*, cerdd 25).
- Tudur Aled, 'Gwenfrewi' (T. Gwynn Jones, gol., *Gwaith Tudur Aled* (Caerdydd, 1926), cerdd 139).

Cyfnod 4 (diweddarach yn yr l6eg ganrif)

- Huw Arwystl, 'Awdl Llonio Sant' (*LBS*, IV, 429).
- Lewys Morgannwg, 'Moliant Illtud Sant' (Cynfael Lake, gol., *Gwaith Lewys Morgannwg* (Aberystwyth, 2004), cerdd 100).